OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2908 (Cy.312)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*2 Rhagfyr 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Rhagfyr 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a pharagraff 9 o Atodlen 1 iddi(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2011.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**3**) fel a ganlyn.

(2) Rhodder y canlynol yn lle rheoliad 8—

"**8.**—(1) Rhaid i'r Cyngor gynnwys ar Bwyllgor—

(a) un neu ragor o aelodau lleyg; a

(b) un neu ragor o aelodau sy'n athrawon cofrestredig.

(**1**) 1998 p. 30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/503 (Cy. 71), O.S. 2003/542 (Cy. 76), adran 81(5) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (2009 p. 26), O.S. 2009/1354 (Cy. 130), O.S. 2009/2161 (Cy. 184) ac O.S. 2010/1142 (Cy. 101).